

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol lleol



7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.14 Buddsoddi Cymunedol

Beth yw 'buddsoddi cymunedol'?

Mae buddsoddi cymunedol yn ddull y gall cymunedau ei ddefnyddio i fuddsoddi cyfalaf mewn mentrau busnes sy'n creu budd cymdeithasol a chymunedol. Mae'n golygu cyfranogiad a grymuso cymunedol, ysgogi cymunedau i fuddsoddi ynddynt eu hunain. Drwy ddefnyddio pŵer buddsoddi cymunedau cyfan mae'n bosibl codi symiau mawr o arian heb orfod troi at y sector preifat neu unigolion cyfoethog.

Gall cymunedau elwa hefyd ar fuddsoddi cymunedol drwy ddelio â methiannau'r sector preifat, sefydlu teyrngarwch cwsmeriaid a sefydlu model busnes sy'n gwasanaethu ac yn ymateb i anghenion y gymuned ehangach.

Mae'n bwysig nodi nad yw 'cymuned' yn cyfeirio at grŵp daearyddol o bobl yn unig, gall hefyd gyfeirio at gymuned sy'n rhannu diddordebau, gwerthoedd a hunaniaeth.

Nid yw buddsoddi cymunedol yn syniad newydd, ond gwelwyd diddordeb newydd yn ystod y deg mlynedd ddiwethaf i ddefnyddio buddsoddi cymunedol i ariannu mentrau cymunedol amrywiol. Un o'r ffyrdd mwyaf cyffredin i fentrau busnes godi cyfalaf drwy fuddsoddi cymunedol yw drwy werthu cyfranddaliadau neu fondiau (ceir mwy o wybodaeth isod am y rhain).

Pa fathau o fentrau busnes y gellir eu hariannu drwy fuddsoddi cymunedol?

Gellir defnyddio buddsoddi cymunedol i ariannu unrhyw fenter sy'n gallu cynhyrchu elw ariannol a chymdeithasol digon deniadol ar y buddsoddiad. Mae'r rhestr o bosibiliadau'n ddi-ben-draw. Gall y rhan fwyaf o gynnyrch a gwasanaethau elwa ar gael eu troi i wasanaethu diben cymunedol. Dyma rai enghreifftiau:

- **Ailgylchu gwastraff:** Byddai'n bosibl cynyddu cyfraddau ailgylchu gwastraff yn fawr drwy ysgogi cymunedau i gymryd rhan ym mherchenogaeth gweithfeydd ailgylchu gwastraff.
- **Ymddiriedolaethau tir cymunedol:** Gellir gwneud tai fforddiadwy yn fwy fforddiadwy pe byddai'r gymuned yn prynu tir a bod yn berchen arno.

- **Amaethyddiaeth â chymorth cymunedol:** Mae amaethyddiaeth â chymorth cymunedol yn dangos gwerth sefydlu cysylltiadau uniongyrchol rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr.
- **Mentrau carbon isel:** Mae nifer o fentrau lleihau carbon yn fwy hyfyw yn economaidd os bydd niferoedd mawr o bobl yn eu mabwysiadu. Gallai cynlluniau carbon isel ar faint cymunedau ddarparu dulliau inswleiddio gwell mewn cartrefi, cynlluniau gwres a phŵer cyfun, a dulliau cynhyrchu trydan domestig ar raddfa fwy.
- **Cyfleusterau cymunedol:** Mae rhai ardaloedd trefol yn ei chael yn anodd denu meddygon teulu, deintyddion, meithrinfeydd a mathau eraill o wasanaethau cyhoeddus oherwydd bod cost gymharol uchel eiddo yn rhwystr iddynt.
- **Trafnidiaeth gymunedol:** Gallai buddsoddi cymunedol gael effaith sylweddol ar glybiau rhannu ceir a mentrau trafnidiaeth gymunedol eraill. Mae rhai grwpiau eisoes yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio buddsoddi cymunedol i ariannu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau trên newydd.
- **Cyfleustodau cymunedol:** Mae rhai cymunedau eisoes yn berchen ar rwydweithiau ceblau band eang y genhedlaeth nesaf mewn rhai gwledydd Ewropeaidd, a gellid cyflwyno hyn yn y DU drwy fuddsoddi cymunedol.
- **Tafarndai cymunedol:** Fel siopau pentref a swyddfeydd post, mae tafarndai'n wynebu bygythiad o orfod cau mewn nifer o gymunedau. Gallai buddsoddi cymunedol a pherchenogaeth gymunedol alluogi'r mentrau hyn i fod yn hyfyw unwaith eto.
- **Ynni cymunedol:** mae potensial buddsoddi cymunedol wedi'i ddangos yn llawn yn y sector ynni adnewyddadwy, ac mae'r diolch am hynny yn bennaf i waith arloesol *Energy4All*, asiantaeth ddatblygu sy'n arbenigo mewn creu ffermydd gwynt y mae cymunedau'n berchen arnynt. Mae wedi codi mwy na £10m o arian buddsoddi cymunedol, ac wedi arloesi'r defnydd o ddeddfwriaeth y Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus fel dull buddsoddi cymunedol.
- **Arian Cymunedol:** Mae'r sector arian cymunedol yn cynnwys undebau credyd, Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol (CDFI), y cynllun Gostyngiadau Treth Buddsoddi Cymunedol (CITR), y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS), cronfeydd ariannol mentrau cymdeithasol a chronfeydd Cyfalaf Menter Datblygu Cymunedol (CDVC). Nid yw'r sector arian cymunedol yn gwneud defnydd helaeth o fuddsoddi cymunedol ar hyn o bryd, ond mae sefydliadau arian cymunedol yn elfennau allweddol o'r rhwydwaith o sefydliadau a allai, o gael eu cynllunio'n dda a chyda pholisïau ategol, gydweithio i lunio marchnad effeithiol ar gyfer buddsoddi cymdeithasol.

Beth yw 'cyfranddaliadau' a 'bondiau'?

Mae *cyfranddaliad* yn hawl gyfreithiol i fod yn aelod a bod yn rhannol-berchen ar sefydliad, yn gyfnewid am fuddsoddiad. Ceir gwahanol fathau o gyfranddaliadau gyda hawliau gwahanol, sy'n cael eu pennu'n rhannol gan y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau (y cytundeb cyfranddaliadau) ac yn rhannol gan ffurf gyfreithiol gorfforaethol y sefydliad ei hun. Gellir defnyddio nifer o fformatau corfforaethol i gyflwyno cyfranddaliadau, ond y ddau sy'n fwyaf perthnasol i'r trydydd sector fel arfer yw'r Cwmni Budd Cymunedol (CIC) a'r Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (IPS). Mae'r ddau gorff deddfwriaeth gorfforaethol hyn yn effeithio ar hawliau a dyletswyddau cyfranddalwyr mewn gwahanol ffyrdd, a gallai rhai ohonynt fod yn fwy addas i faterion cyfranddaliadau cymunedol.

Mae *bond* yn fath o fenthyciad. Mae'n gytundeb cyfreithiol rhwng y sawl sy'n cyflwyno'r bond a'r prynwr, sydd fel arfer yn nodi swm y llog i'w dalu ar y benthyciad ar ddyddiadau penodedig a phryd y bydd y benthyciad yn cael ei ad-dalu'n llawn. Bydd sefydliadau fel arfer yn dewis bondiau pan fyddant yn amharod i gynnig cyfranddaliadau neu os na allant eu cynnig.

Beth yw'r dewis gorau, cyfranddaliadau neu fondiau?

Mae yna nifer o ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ynghylch cyflwyno cyfranddaliadau neu fondiau. Mae llawer yn dibynnu ar flaenoriaethau ac egwyddorion sefydliad.

Mae'n well gan y rhan fwyaf o sefydliadau gyfranddaliadau yn hytrach na bondiau, oherwydd nid oes angen ad-dalu cyfalaf cyfranddaliadau, ac mae'n fath o gyfalaf mwy hyblyg. Er ei bod yn haws codi'r arian i ddechrau wrth gyflwyno bondiau, mae'n rhaid i'r cynllun busnes ddangos y gallu i ad-dalu'r benthyciadau (neu godi benthyciad arall i ad-dalu'r buddsoddwyr cychwynnol) o fewn yr amser penodedig.

Ni all rhai sefydliadau gyflwyno cyfalaf cyfranddaliadau (gan gynnwys elusennau a sefydliadau sydd wedi'u hymgorffori fel cwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau), neu nid ydynt yn barod i wneud hynny, ac felly bondiau yw'r unig ddewis sydd ar gael iddynt. Gall pob math o sefydliadau gyflwyno bondiau, os bydd y rheoliadau sy'n llywodraethu hyrwyddiadau ariannol yn cael eu dilyn. Gallai'r syniad o godi cyfalaf gan eu cefnogwyr apelio i sefydliadau eraill, megis cwmnïau cydweithredol gweithwyr, ond nid ydynt yn barod i gyfaddawdu egwyddorion rheolaeth y gweithwyr.

Mae bondiau yn ateb da i'r broblem hon, oherwydd nid oes unrhyw hawliau pleidleisio yn gysylltiedig â bondiau.

Mae rhai sefydliadau wedi cyflwyno cyfranddaliadau a bondiau. Gellir defnyddio cynigion bondiau i annog cyfranddalwyr presennol i gynyddu eu buddsoddiad, er bod hynny ar sail dros dro a byrdymor.

Felly, pa elfennau allweddol all helpu sefydliad i sefydlu cynllun buddsoddi cymunedol llwyddiannus?

Mae yna bedair elfen allweddol i bob cynnig buddsoddi cymunedol llwyddiannus:

1. yr achos busnes dros fuddsoddi
2. y gymuned
3. y ddogfen lywodraethu, a
4. y ddogfen gynnig.

Ceir cyswllt annatod rhwng pob un o'r elfennau hyn, a bydd gwendidau mewn unrhyw elfen unigol yn tanseilio cryfder cyffredinol y cynnig. Byddwn yn edrych yn fyr ar bob un o'r rhain yn eu tro:

• Yr achos busnes dros fuddsoddi

Bydd buddsoddi cymunedol ond yn hyfyw os gall y fenter weithio ar fodel busnes. Nid yw'n addas i sefydliadau elusennol sy'n dibynnu ar grantiau, rhoddion a chyfraniadau fel eu prif ffynhonnell incwm. Mae rhai sefydliadau cymunedol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y mae'n rhaid eu cyflawni drwy elusen yn eu hanfod, naill ai o bwrs y wlad neu o ffynonellau preifat. Fodd bynnag, mae yna nifer gynyddol o wasanaethau cymunedol lle mae'r model busnes yn cael ei dderbyn yn llawn neu'n gyffredinol.

Mae perchenogaeth a buddsoddi'n cyd-fynd er mwyn llunio cyswllt cryf, gan ymgysylltu cymunedau mewn mentrau sy'n gwasanaethu eu buddiannau. Gall buddsoddi cymunedol atgyfnerthu'r model busnes, ond mae yna risg hefyd y bydd arian pobl yn cael ei golli, neu efallai na fydd eu disgwyliadau'n cael eu cyflawni. Felly, mae'n hollbwysig bod achos busnes cryf yn cael ei ddatblygu, ac un o'r ffyrdd gorau o wneud hynny yw ysgogi'r gymuned i fod yn berchen ar y fenter a'i rheoli. Fodd bynnag, wrth ymgymryd â phrosiect o'r fath mae'n hollbwysig sicrhau bod gennych y capasiti a'r adnoddau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, cynnal ymgyrchoedd hysbysebu, anfon dogfennau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a phrosesu ceisiadau am gyfranddaliadau ac ymholiadau cysylltiedig.

• Y gymuned

Fel y soniwyd ar ddechrau'r ddogfen hon, yng nghyd-destun buddsoddi cymunedol mae angen i'r term 'cymuned' fod yn fwy na label am bobl sy'n byw yn yr un lle. Mae angen i gymuned hefyd olygu buddiannau a rennir, gwerthoedd a rennir a hunaniaeth a rennir. Yn wir, ym maes byd-eang cysylltiadau electronig, mae yna nifer gynyddol o rithgymunedau sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn hytrach na lle. Mae buddsoddi cymunedol yn dibynnu ar nodi ac ymgysylltu â chymuned darged mewn menter sy'n effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned honno.

• Y ddogfen lywodraethu

Mae buddsoddi cymunedol yn aml yn gweithio drwy werthu cyfranddaliadau mewn menter i bobl yn y gymuned. Mae'r bobl hyn, fel cyfranddalwyr, yn rheoli'r fenter ac mae eu hawliau fel y cyfranddalwyr wedi'u hymgorffori yng nghyfansoddiad y fenter

a elwir yn 'ddogfen lywodraethu' fel arfer. Mae dogfen lywodraethu'n gwneud dau beth ar y cyfan: mae'n datgan diben y sefydliad, ei nodau a'i amcanion; ac mae'n disgrifio'r ffordd y bydd y sefydliad yn gweithredu. Os bydd sefydliad yn bwriadu gwerthu cyfranddaliadau i aelodau, mae'n rhaid iddo fabwysiadu fformat cyfreithiol priodol ar gyfer ei ddogfen lywodraethu, naill ai fel cwmni neu fel cymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol.

• Y ddogfen gynnig

Mae'n rhaid gwahodd pobl i fuddsoddi mewn menter ac wynebu'r risg o golli eu harian a hynny mewn ffordd gyfrifol. Mae'r ddogfen gynnig yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at y gwahoddiad hwn i fuddsoddi, naill ai ar ffurf dogfen wedi'i hargraffu, gwefan, fideo neu hyd yn oed cyflwyniad mewn cyfarfod cyhoeddus.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau (ond nid ym mhob un), mae gwahodd aelodau'r cyhoedd i fuddsoddi yn weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio, sy'n cael ei gynnwys yn Neddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA). Mae'n werth nodi os bydd angen i'r FSMA reoleiddio eich dogfen gynnig, efallai y bydd cost gysylltiedig a allai fod yn swm sylweddol, oherwydd byddai angen i'r prospectws gael ei lofnodi gan unigolyn/sefydliad sy'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA). Mae rhai mathau o hyrwyddiadau ariannol wedi'u heithrio o'r rheoliad (megis cymdeithasau budd cymunedol), neu nid ydynt wedi'u cwmpasu gan y Ddeddf, ond hyd yn oed yn absenoldeb rheoliadau statudol, efallai y bydd gan fuddsoddwyr atebolrwydd cyfreithiol o hyd.

Gallai hyn fod yn berthnasol pe byddai buddsoddwr yn profi colledion, a'u bod yn dibynnu ar y ddogfen, gwybodaeth, neu gyngor wrth benderfynu cytuno ar gontract buddsoddi a bod y golled wedi digwydd o ganlyniad i ddatganiad o ffaith anghywir neu gamarweiniol, neu unrhyw ddatganiad esgeulus. Felly, mae'n hollbwysig bod yr holl wybodaeth sy'n cael ei darparu mewn dogfennau, fideos neu ar wefannau, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ac mewn unrhyw ddulliau cyfathrebu eraill â darpar fuddsoddwyr yn gywir ac nad ydynt yn gamarweiniol mewn unrhyw ffordd.

Un mater allweddol sy'n gysylltiedig â'r ddogfen gynnig yw a yw'r cyfalaf cyfranddaliadau'n cael ei ystyried yn gyfalaf y gellir ei 'dynnu'n ôl' neu ei 'drosglwyddo', oherwydd mae'n rhaid i'r ddogfen gynnig ddatgan yn glir pa fath o gyfalaf cyfranddaliadau sy'n cael ei gynnig.

- Mae cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei dynnu'n ôl yn fath o gyfalaf cyfranddaliadau sy'n unigryw i Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (gweler isod), lle gall aelodau dynnu eu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl yn amodol ar y telerau ac amodau yn rheolau'r gymdeithas. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys cyfnod gofynnol o rybudd tynnu'n ôl, a darpariaeth i'r cyfarwyddwr atal y cyfalaf cyfranddaliadau rhag cael ei dynnu'n ôl pe byddai hyn yn peryglu sefyllfa ariannol y gymdeithas yn eu barn hwy.

- Ni ellir tynnu cyfranddaliadau trosglwyddadwy yn ôl o gymdeithas; yn hytrach, mae'n rhaid i'r aelod ddod o hyd i brynwr parod, am bris sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall. Ychydig iawn o gymdeithasau sy'n cynnig cyfranddaliadau trosglwyddadwy, yn bennaf oherwydd y problemau y bydd aelodau'n eu hwynebu pan fydd arnynt eisiau cyfnewid neu pan fydd arnynt angen cyfnewid eu buddsoddiad am arian parod.

A oes angen strwythur cyfreithiol penodol ar sefydliad i sefydlu cynllun buddsoddi cymunedol?

Argymhellir yn gryf i unrhyw sefydliad sy'n bwriadu codi cyfalaf buddsoddi o'r gymuned, ddod yn endid corfforaethol drwy fabwysiadu ffurf gyfreithiol sy'n rhoi'r gallu a'r hyblygrwydd iddynt gyflawni eu huchelgeisiau.

Gellir defnyddio tri phrif fath o ffurf gyfreithiol at ddibenion buddsoddi cymunedol:

1. Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus
2. Cwmnïau Budd Cymunedol, ac
3. Elusennau.

Mae rhai sefydliadau wedi defnyddio ffurfiau cyfreithiol eraill, megis cwmni cyfyngedig cyhoeddus neu gwmni cyfyngedig drwy warant, er nad yw'r ffurfiau hyn yn cynnig unrhyw ddarpariaethau arbennig i ddiogelu buddiannau'r gymuned. Byddwn yn edrych ar bob un o'r tri phrif fath o ffurf gyfreithiol isod:

• Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus

Mae Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus yn cael eu cofrestru a'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Fel cwmnïau, mae'r Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus yn gyrff corfforaethol gyda statws atebolrwydd cyfyngedig, ond fel arall maent yn wahanol iawn o ran ffurf, ac mae ganddynt bedair nodwedd unigryw sy'n golygu eu bod yn gyfrwng buddsoddi cymunedol effeithiol. Y rhinweddau unigryw hyn yw:

- Democratiaeth cyfranddalwyr
- Cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei dynnu'n ôl
- Uchafswm cyfranddaliadau
- Uchafswm llog ar gyfranddaliadau

Ceir dau brif fath o Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus: cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau fath o gymdeithas yw eu perthynas â'u haelodau.

- (i) Mae *cymdeithasau cydweithredol* yn cael eu rhedeg er budd yr aelodau, ac yn ogystal â'r llog y bydd aelodau'n ei dderbyn ar eu cyfalaf cyfranddaliadau, gallant hefyd dderbyn dididend ar eu trafodion gyda'r gymdeithas. Gall yr aelodau benderfynu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i

ddychwelyd rhan o unrhyw arian dros ben i aelodau, yn seiliedig ar faint trafodion yr aelodau gyda'r gymdeithas.

- (ii) Mae *cymdeithasau budd cymunedol* yn cael eu rhedeg yn bennaf er budd y gymuned ehangach, yn hytrach na dim ond aelodau'r gymdeithas. Gall unrhyw un sy'n cefnogi amcanion y gymdeithas fod yn aelodau. Gall cymdeithasau budd cymunedol dalu llog i aelodau ar eu cyfalaf cyfranddaliadau, ond ni allant dalu difidendau i aelodau ar eu trafodion gyda'r gymdeithas.

Mae yna un gwahaniaeth mawr arall rhwng cymdeithas gydweithredol a chymdeithas budd cymunedol. Ers 2006, mae cymdeithasau budd cymunedol wedi gallu gosod clo asedau yn eu rheolau sy'n sicrhau y bydd asedau'r gymdeithas yn cael eu defnyddio'n barhaus er budd y gymuned ac na fyddant yn cael eu dosbarthu i'r aelodau os bydd y gymdeithas yn cael ei diddymu, ei huno neu ei newid i fod yn gwmni. Nid yw'r rheoliad newydd hwn yn berthnasol i gymdeithasau cydweithredol.

Mae'r dewis rhwng cofrestru fel cymdeithas gydweithredol neu fel cymdeithas budd cymunedol yn gymharol syml. Mae strwythurau cydweithredol yn fwyaf priodol i sefydliadau y mae gan eu haelodau berthynas drafodol gyda'r sefydliad, fel cwsmeriaid, cyflenwyr neu gyflogeion. Mae strwythurau budd cymunedol yn fwyaf priodol i sefydliadau sy'n ceisio gwasanaethu diben cymunedol cyffredinol ac nad oes ganddynt berthynas trafodol gyda'u haelodau.

• Cwmnïau Budd Cymunedol

Darparwyd fframwaith rheoliadol newydd mewn deddfwriaeth ar Gwmnïau Budd Cymunedol (CIC), a gyflwynwyd yn 2005, a oedd yn llywodraethu'r tri phrif fath o gwmni:

- cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau
- cwmni cyfyngedig drwy warant, a
- cwmni cyfyngedig cyhoeddus.

Fel unrhyw gwmni arall sy'n gyfyngedig drwy warant, ni all cwmni CIC sydd wedi'i gyfyngu drwy warant gyflwyno cyfranddaliadau, er y gall hyrwyddo gwerthiant bondiau a chynnig aelodaeth fel ystyriaeth ar wahân. Mae yna ddarpariaeth ar gyfer creu CIC cwmni cyfyngedig cyhoeddus.

Mae'r llywodraeth wedi rhoi llawer o amser i alluogi CIC i fabwysiadu strwythur cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, sy'n caniatáu buddsoddiad ecwiti gan unigolion, a diogelu buddiannau cymunedau ar yr un pryd. Cyflawnwyd hyn drwy'r darpariaethau penodol canlynol:

- (i) Clo asedau sy'n rhwystro unrhyw asedau dros ben mewn CIC gael eu dosbarthu i aelodau pe byddai CIC yn cael ei werthu, ei ddiddymu neu ei uno.

- (ii) Trothwy difidend dwbl sy'n atal CIC rhag dosbarthu mwy na 35% o'i elw i gyfranddalwyr mewn unrhyw flwyddyn unigol, ac mae'n cyfyngu'r cyfraddau difidend i gyfradd sylfaenol a 5%. Gellir trosglwyddo lwfansau difidend heb eu defnyddio i flynyddoedd yn y dyfodol ond ni ellir croesi'r trothwy 35% ar yr hyn a ddosberthir mewn unrhyw flwyddyn unigol.

Mae yna nifer o ofynion rheoliadol eraill y mae'n rhaid i CIC eu dilyn, sy'n cynnwys pasio prawf budd cymunedol a chynhyrchu adroddiad budd cymunedol blynyddol.

• Elusennau

Fel ffurf gyfreithiol, nid yw elusennau'n cynnig llawer o gyfleoedd buddsoddi cymunedol. Gall elusennau gyflwyno bondiau ond ni allant gyflwyno cyfalaf cyfranddaliadau. Mae elusennau sy'n cyflwyno bondiau a mathau eraill o ddyled, wedi'u heithrio o'r rheoliad dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol.

Cyn dechrau codi cyfalaf drwy fondiau cymunedol, dylai elusennau ystyried effaith y math hwn o hyrwyddiad ariannol ar eu gweithgareddau codi arian gwirfoddol. Gallai annog rhoddwyr i ddod yn fuddsoddwyr gael effaith hirdymor ar eu perthynas gyda'r elusen. Y broblem gyda bondiau, a phob math arall o ddyled, yw bod yn rhaid addalu'r cyfalaf yn y pen draw. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r elusen weithredu fel busnes a chynhyrchu elw digonol i ad-dalu'r cyfalaf. Yr unig ddewis arall yw i'r elusen ganfod rhoddwyr sy'n barod i ad-dalu ei dyledion i ddeiliaid bondiau. Yn y cyd-destun hwn, bydd arian bond ond yn ateb dros dro i anghenion ariannol elusennau.

Sut mae dewis y ffurf gyfreithiol orau?

Bydd penderfynu ar y ffurf gyfreithiol fwyaf priodol ar gyfer sefydliad yn dibynnu i raddau helaeth ar ei ddiben a'i amcanion sylfaenol. I'r sefydliadau hynny a'u bryd ar amcanion elusennol, ac nad ydynt yn dibynnu'n helaeth ar fasnach, yna mae'n debygol mai ffurf elusennol yw'r ffurf fwyaf priodol, er y bydd ond yn gallu codi buddsoddiad cymunedol ar ffurf bondiau. I'r sefydliadau hynny sy'n cael y rhan fwyaf o'u hincwm neu eu hincwm cyfan drwy fasnachu, sydd ag amcanion cymunedol neu gymdeithasol clir hefyd, yna IPS neu CIC fydd y ffurf fwyaf priodol. Gellir defnyddio'r ddwy ffurf hyn i gyflwyno cyfranddaliadau neu fondiau, ac mae'r ddwy ffurf yn cefnogi'r model busnes er mwyn elw.

Casgliad

Mae buddsoddi cymunedol yn gweithio orau pan fydd yn gweithio gyda chymuned benodol, ar brosiect gyda nodau cyflawnadwy a phroffil risg isel. Os bydd eich syniad wedi'i seilio'n llwyr ar ganlyniadau cymdeithasol, efallai y byddai'n well ei redeg fel prosiect elusennol. Mae buddsoddi cymunedol yn golygu elw ariannol yn ogystal ag elw cymdeithasol.

Gwybodaeth bellach

Gall y ffynonellau canlynol roi gwybodaeth bellach i chi am beth yw buddsoddi cymunedol a sut y gallai weithio i chi.

- Mae *Community Shares* yn brosiect ymchwil sy'n archwilio potensial cyfranddaliadau a bondiau cymunedol fel ffordd o ddenu buddsoddiad ychwanegol, ac mae eu gwefan yn cynnig adnoddau, taflenni ffeithiau a manylion astudiaethau achos - www.communityshares.org.uk/.
- Mae *Community Share and Bond Issues: The sharpest tool in the box* yn gyhoeddiad gan Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n trafod cyfranddaliadau a bondiau, sut i'w trefnu, ac yn y blaen www.dta.org.uk/Resources/Development%20Trust%20Association/Documents/Other/community%20shares%20Final.pdf
- Mae 'Co-Operatives UK' wedi cynhyrchu nifer o lyfrynau a allai fod yn ddefnyddiol:
 - Mae *Community Investment: Using Industrial and Provident Society Legislation* yn rhoi gwybodaeth i chi am fformat IPS a help ar sut i ddechrau arni - http://offline.cooperatives-uk.coop/live/images/cme_resources/Public/In%20the%20Spotlight/ITS%20Sept/Community-Investment-guide.pdf
 - Mae *Community Shares: Practitioner's guide to governance and offer documents* yn cynnig arweiniad ar gynigion cyfranddaliadau cymunedol ac adnoddau megis rhestrau gwirio a allai fod yn ddefnyddiol i chi - www.communityshares.org.uk/sites/default/files/practitioners_guide_final_7_7_10.pdf
 - Mae *Simply Legal* yn cynnwys gwybodaeth am ffurfiau cyfreithiol ar gyfer mentrau cymunedol - http://offline.cooperatives-uk.coop/live/images/cme_resources/Public/MakingLocalFoodWork/SimplyLegal.pdf

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AF
Elusen Gofrestredig: 1054322

Ffôn: 01824 702441

sectorsupport@dvsc.co.uk
www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 23/03/2017



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**